

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD
YN EISTEDD FEL YMDDIRIEDOLWYR YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA
LLOYD GEORGE**

Dyddiad y Cyfarfod:	12 Ionawr 2021
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	27 Ionawr 2021

PWNC

Eitem 5:ADNABOD YR OPSIWN FFAFRIEDIG AR GYFER DYFODOL AMGUEDDFA
LLOYD GEORGE

PENDERFYNIAD

Gofyn i Gabinet Cyngor Gwynedd i wneud cyfraniad un tro am gostau blwyddyn yr Amgueddfa er mwyn prynu amser i Ymddiriedolaeth Elusen Amgueddfa Lloyd George i edrych ar y newidiadau all eu gwneud er mwyn i'r Amgueddfa fod yn hyfyw i'r dyfodol.

I'r Adran Economi a Chymuned adrodd yn ôl i'r Cabinet yn eitsedd fel Ymddiriedolwr yn fuan er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r bwriad ar gyfer gwireddu'r cynllun i roddi'r elusen ar droed mwy masnachol fel yr argymhellwyd eisoes gan yr adroddiadau ymgynghorwyr a dderbyniwyd.

Gofyn i'r adran a'r Gwasaneth Cyfreithiol adolygu trefniadau'r Elusen er mwyn sicrhau bod materion yr ymddiriedolaeth yn hollol glir ac ar wahân i faterion y Cyngor.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn dilyn ymgynghoriad Her Gwynedd penderfynodd y Cyngor na fyddai'n rhedeg Amgueddfa Lloyd George o 1 Ebrill 2017. Yn dilyn y penderfyniad cyhoeddodd Canghellor Llywodraeth Prydain y byddai'r bwloch ariannol yn cael ei gyfarch gan Lywodraeth Prydain am 3 blynedd.

Bu i Gabinet Cyngor Gwynedd yn ôl yn Rhagfyr 2019 gytuno i gau'r bwloch ariannol am flwyddyn, ond i beidio ymrwymo unrhyw nawdd y tu hwnt i hynny. Ers hynny mae gwaith wedi ei gomisiynu i ystyried opsiynau ar gyfer dyfodol Ymddiriedolaeth Elusen Amgueddfa Lloyd George, a dyfodol yr Amgueddfa. Bu i'r ymddiriedolwyr ystyried yr opsiynau a gyflwynwyd yn yr adroddiad a gomisiynwyd ac i ystyried y camau nesaf ymlaen.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
